Proffil

# Sgiliau Digidol

Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio yn eich swydd?**

Cydweithredu a Chyfathrebu Digidol – "anfon negeseuon ebost a defnyddio MS Teams i gyfathrebu â chydweithwyr".
Datrys Problemau Digidol – "mae'r Gwasanaeth Iechyd yn defnyddio llawer o hen systemau felly rwy'n aml yn delio â meddalwedd wedi chwalu, cyfrifiaduron wedi rhewi, ffeiliau wedi'u llygru a'u dileu".
Dysgu Digidol – "Roedd rhaid imi ddysgu sut i ddefnyddio Excel ar gyfer taenlenni a sut i ddefnyddio system lythyrau ddigidol awtomataidd y Gwasanaeth Iechyd er mwyn llenwi manylion cleifion ar ffurflenni".
Hunaniaeth Ddigidol – "mae gan y Gwasanaeth Iechyd ganllawiau ar sut i gyflwyno'ch hun ar-lein a sut i drin data cleifion yn iawn yn unol â'r rheoliadau diogelu data."

**Are there any digital skills you wish you had learnt before you graduated?**

"Fe hoffwn i pe bawn i wedi defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael imi a'u harchwilio'n fwy yn hytrach na'u defnyddio ar gyfer yr hyn roedd ei angen yn fy modiwlau a'm haseiniadau yn unig. Fe hoffwn i hefyd pe bawn i wedi archwilio neu wedi cael fy nysgu mwy ar Excel gan fy mod i'n defnyddio hwnnw gymaint yn fy swydd i ac rwy'n credu mai dim ond yr hanfodion roeddwn i'n gwybod amdanyn nhw wrth imi ddechrau".

**Oes unrhyw wendidau cyffredin mewn sgiliau digidol y byddwch chi'n sylwi arnyn nhw ymysg eich cydweithwyr?**

"Oes, gwendidau enfawr yn bendant mewn sgiliau datrys problemau digidol o ran gwybod sut i drwsio materion technegol pan maen nhw'n digwydd yn ogystal â sgiliau llythrennedd gwybodaeth ynglŷn â defnyddio cyfrifiaduron yn gyffredinol".

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**

"2022"

**Beth fuoch chi'n ei astudio?**

"Troseddeg"

**Beth ydych chi'n ei wneud nawr yn broffesiynol ers graddio?**

"Rwy'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd fel Ysgrifennydd Cynorthwyol yn Adran Oncoleg Ysbyty Brenhinol Amwythig".



# Francesca Hughes